**Eitem ar yr agenda: 8**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 15 RHAGFYR 2003 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **TESTUN:** | DATGANIAD O GYFRIFON 2002-2003 |

## 1. CYFLWYNIAD

Yn dilyn helyntion am y gwaith cyfrifo mewn cwmnïau megis World.Com ac Enron mae archwilwyr ledled y byd wedi edrych eto ar safonau archwilio. O bwys penodol i'r Awdurdod mae'r Datganiad o Gyfrifon Safon 610 – Hysbysu ynglŷn a materion ymchwilio i'r rhai sydd a chyfrifoldeb dros reolaeth (SAS610). Cyhoeddwyd SAS610 yn wreiddiol yn 2001, a chafodd ei ddiwygio'n sylweddol yn niwedd 2002. Mae'n gosod cyfrifoldebau ar Archwilwyr yr Awdurdod (Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru), ac maent wedi penderfynu gweithredu'r cyfrifoldebau hyn yn llawn ar gyfer cyfrifon 2002-2003.

Yn gryno, mae'r gofyniadau hyn yn golygu y bydd yr Archwilwyr yn adrodd i'r corff sy'n gyfrifol am reolaeth gorfforaethol (Awdurdod Tân Gogledd Cymru sydd i'r Gwasanaeth Tân) yr eitemau a ganlyn:

- Unrhyw wendidau materol yn systemau cyfrifo a rheolaeth fewnol y deuir ar eu traws yn yr Awdurdod;
- Y newidiadau a ddisgwylir i adroddiad yr Archwilwyr;
- Camddatganiadau sydd heb eu newid.

## 2. YR ATEB I ADRODDIAD YR ARCHWILWYR

Roedd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, fel rhan o'u harchwiliad ar y Datganiad o Gyfrifon 2002-2003, rai materion o ran cyflwyniad y cyfrifon, ac roeddynt yn gofyn i'r swyddog sy'n gyfrifol am y gwaith Archwiliad Mewnol ddarparu rhagor o sylwadau am y rheolaeth ariannol mewnol am y flwyddyn dan sylw.

Ymdriniwyd â'r materion o ran y cyflwyniad, a bydd y cyfrifon a gyhoeddir yn cynnwys y newidiadau hyn.

Darparwyd y datganiad canlynol gan Bennaeth Archwilio a Chaffael i ateb y Comisiwn Archwilio yng Nghymru:

"Diben y system reolaeth fewnol yw darparu sicrhad rhesymol bod pob risg yn cael ei reoli, pob ased yn cael ei diogelu, pob deliad yn cael ei awdurdodi a'i gofnodi'n gywir, a bod y gwallau neu anghysonderau materol yn cael ei hosgoi neu eu lleoli mewn pryd. Mae effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn ddibynnol ar:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr;
- Adolygiadau rheolaidd o adroddiadau perfformiad cyfnodol neu flynyddol sy'n cynnwys perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolwg;
- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiadau eraill;
- Adrodd yn rheolaidd ynghylch y gwir berfformiad yn erbyn y perfformiad yn y targed;
- Fel sy'n briodol, disgyblaethau ffurfiol ar reoli prosiectau.

Yn unol ag arfer dda a chysondeb â'r gofyniad sydd yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996, mae'r gwaith y mae'r Archwiliad Mewnol wedi ei wneud yn ystod 2002-2003 yn dangos, yn fy marn i, bod y System Rheolaeth Fewnol sydd ar waith yn y Gwasanaeth Tân yn ddigon cadarn i ateb y nodau ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu y bydd y gwaith a wneir i ddatblygu'r strategaeth Rheoli Risg yn rhoi rhagor o wybodaeth ar gyfer y farn uchod."

## 3. ARGYMHELLIAD

**-Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2002-2003**
**-Gofynnir i'r aelodau nodi'r Datganiad ar y System Reolaeth Fewnol.**

*KW FINCH*
<u>Trysorydd</u>